# Croeso i e-gylchlythyr Hyb Ymchwil, Arloesi a Gwelliant Gorllewin Cymru (WWRIIC) e-gylchlythyr

WWRIIC E-Gylchlythyr Ionawr 2021

*Trwy gydol y cylchlythyr rydym wedi defnyddio eiconau i ddangos sut mae ein gwaith yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r eiconau'n dangos y Nodau Llesiant cenedlaethol, pob un ohonynt yn rhyng-gysylltiedig a dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r pum ffordd o weithio'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. I gael mwy o wybodaeth am nodau llesiant sefydliadau unigol yng Ngorllewin Cymru, cysylltwch â*

***StrategicPartnerships.hdd@wales.nhs.uk***

## Gobeithio y bydd ein cylchlythyr yn eich diweddaru ar ein gwaith ac yn darparu unrhyw negeseuon allweddol am iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Hyb Ymchwil, Arloesi a Gwelliant Gorllewin Cymru wedi'i sefydlu i gydlynu ac alinio gweithgaredd RI&I ledled y rhanbarth. Bydd yr hyb yn dod â gweithgaredd ymchwil, arloesi a gwella o'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol at eu gilydd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd i unrhyw un sy'n gweithio neu sydd angen rhwydweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ledled Gorllewin Cymru. Rydym yn hwyluso ac yn rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol a gwirfoddol sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, y byd academaidd a menter yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Rydym hefyd yn cysylltu ac yn rhannu arfer da wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru trwy rwydwaith o saith hyb RIIC arall sy'n cyd-fynd â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru a thri arweinydd RIIC ym maes Iechyd Cyhoeddus, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Gofal Canser Felindre.




## Rydym ar-lein!

Rydym yn fyw! Gallwch gysylltu â ni a'n gwaith yn: **The Research Innovation and Improvement Coordination Hub – West Wales Care Partnership (wwcp.org.uk)**

## CWRDD Â'R TÎM

Elin Brock, Pennaeth Ymchwil, Arloesi a Gwelliant, elin.brock@wales.nhs.uk

Susan Chichlowska, Ymarferdydd Ymchwil, Arloesi a Gwelliant susan.chichlowska@wales.nhs.uk

Suzanne Neeves, Cynorthwyydd Personol a Gweinyddwr Tîm Suzanne.neeves@wales.nhs.uk

## RYDYM YN FYW!

Gobeithiwn y gall y wefan ddod yn ganolbwynt ar gyfer ymchwil, arloesi a gwelliant ac y gellir ei defnyddio i nodi a chysylltu â sefydliadau eraill sydd o ddiddordeb i chi. Gellir gweld dogfennau a dolenni defnyddiol i wefannau eraill yn newislen y rhestr asedau ar dudalen we RIIC. Os hoffech chi rannu unrhyw ymchwil, syniadau arloesi, adroddiadau ar brosiectau gwella, unrhyw fonitro a gwerthuso neu archwiliadau y credwch a fydd o gymorth ar gyfer rhannu dysgu gyda sefydliadau eraill, anfonwch at: RIIC rii.hdd@wales.nhs.uk.

**Rydym ar-lein!: The Research Innovation and Improvement Coordination Hub – West Wales Care Partnership (wwcp.org.uk)**

## YMARFER MAPIO RHANBARTHOL

Mae'r hyb wedi comisiynu Prifysgol Abertawe i gynnal ymarfer mapio rhanbarthol o'r holl weithgaredd ac asedau RI&I ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng ngorllewin Cymru. Bydd hyn yn rhoi syniad da i ni o lefel y gweithgaredd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, cryfderau a gwendidau yn y system a hefyd yn tynnu sylw at unrhyw fylchau capasiti a all fodoli. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan: **The Research Innovation and Improvement Coordination Hub – West Wales Care Partnership (wwcp.org.uk)**

## Rhwydwaith Bevan

Mae yna nifer o brosiectau ar draws Gorllewin Cymru sy'n cael eu cefnogi gan rwydwaith enghreifftiol Bevan. Mae'r rhwydwaith yn helpu i symud ymlaen a chymhwyso atebion arloesol i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r prosiectau hyn yn defnyddio syniadau arloesol yn y gweithle. Rydym wedi sefydlu rhwydwaith enghreifftiol Bevan Gorllewin Cymru i gefnogi, mentora a helpu i wneud cysylltiadau ledled Cymru a thu hwnt, gan gynnig trosglwyddo gwybodaeth arfer dda a chefnogaeth un i un. Yn bwysicach na dim, rydym am nodi'r hyn sydd wedi mabwysiadu a lledaenu potensial ar ddiwedd y prosiectau a nodi a galluogi llwybrau cymorth.

Am fanylion pellach, cysylltwch â:
**elin.brock@wales.nhs.uk**

T I weld rhestr o brosiectau arloesi cyfredol sy'n cael eu cefnogi ledled Cymru gan Gomisiwn Bevan, gweler y ddolen isod:

**Innovation | Bevan Commission**

Cynhaliwyd digwyddiad dathlu ym mis Rhagfyr 2020 i rannu'r hyn a ddysgwyd o brosiectau enghreifftiol Bevan 2019-20 a bu i gyfanswm o 82 o bobl ledled gorllewin Cymru wrando a chymryd rhan. Diolch i'r holl gyflwynwyr am rannu eu profiadau a'n helpu i ddysgu a datblygu. I gael mwy o wybodaeth am y prosiectau hyn, cysylltwch:

**Suzanne.neeves@wale.nhs.uk**

## MABWYSIADU A LLEDAENU

Beth yw eich profiadau o geisio uwchraddio prosiect gwella neu arloesi? Beth oedd yr heriau roeddech chi'n eu hwynebu? Neu os oeddech chi'n llwyddiannus, beth wnaeth eich galluogi i fabwysiadu a lledaenu**?**

Rydym yn awyddus i glywed eich meddyliau ar fabwysiadu a lledaenu arfer da - cysylltwch ag **elin.brock@wales.nhs.uk** os oes gennych unrhyw farn neu brofiadau i'w rhannu**!**

## PARTNERIAETH GOFAL GORLLEWIN CYMRU

Cydlynir rhaglen waith ehangach Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru gan yr Uned Bartneriaeth Ranbarthol, a gefnogir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r meysydd gwaith cyfredol yn cynnwys:

- Cyflwyno rhaglen Iach Gorllewin Cymru yn barhaus, wedi'i hariannu trwy'r Gronfa Drawsnewid ac yn canolbwyntio ar ofal wedi'i alluogi gan dechnoleg, ymateb integredig i argyfwng yn y gymuned a meithrin gallu mewn cymunedau i gefnogi llesiant unigol a chyfunol. Mae cyllid trosiannol o £6m wedi'i gymeradwyo i gefnogi'r rhaglen hon yn 2021-22
- Cydlynu rhaglenni refeniw a chyfalaf y Gronfa Gofal Integredig ranbarthol (ICF), gan gefnogi ystod eang o fentrau ledled Gorllewin Cymru i integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau i bobl hŷn, pobl ag anabledd dysgu, plant a theuluoedd, gofalwyr di-dâl a phobl â dementia
- Goruchwylio cyflenwi ystod o fentrau comisiynu ar y cyd mewn perthynas â chartrefi gofal, eiriolaeth a gwasanaethau plant
- Monitro darpariaeth y cynllun gaeaf integredig rhanbarthol

Bydd hyb RIIC yn cefnogi'r tîm rhanbarthol i gipio effaith prosiectau ICF a thrawsnewid trwy addasu canllawiau gwerthuso Llywodraeth Cymru i weddu i'r cyd-destun lleol o ddarparu rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru. Bydd gwerthusiadau yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i ddatblygu ac asesu sut mae'r rhaglenni hyn yn cefnogi'r rhanbarth i weithredu model iechyd a gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar atal

I gael mwy o wybodaeth am werthuso, cysylltwch â: **susan.chichlowska@wales.nhs.uk**

Ewch i wefan WWCP **https://www.wwcp.org.uk/.**

## CEFNOGI BUSNESAU A GWNEUTHURWYR LLEOL I DDATBLYGU TECHNOLEGAU GOFAL IECHYD NEWYDD YNG NGORLLEWIN CYMRU

**Creu'r Cyfleuster a Thîm Peirianneg Glinigol, Arloesi ac Ymchwil**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) eisiau ei gwneud hi'n haws i fusnesau lleol ddatblygu, profi a masnacheiddio technolegau iechyd newydd (gan gynnwys dyfeisiau, technolegau ar y we, a systemau deallusrwydd artiffisial). Mae'n credu, trwy gefnogi gweithgynhyrchwyr a busnesau lleol, y gall sicrhau gwell mynediad at dechnolegau effeithiol, gan gyfrannu at ganlyniadau iechyd gwell i bobl sy'n byw yn y rhanbarth, ar yr un pryd â sicrhau budd economaidd ehangach.

## GWELLA GWASANAETH

**Gofal Brys yr un Diwrnod**

Fel rhan o gynllunio'r gaeaf mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn profi ac yn datblygu ffyrdd o optimeiddio llif trwy lwybrau Gofal Brys yr Un Diwrnod (SDEC) ar 3 o'r safleoedd ysbytai acíwt. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan y timau clinigol a'i gefnogi gan y tîm Gwella Ansawdd a Thrawsnewid Gwasanaeth.

Bydd SDEC yn un o'r llwybrau sy'n rhan o fodel ar gyfer rheoli pobl sydd angen gofal brys. O'r herwydd, rhagwelir y bydd y model yn lleihau presenoldeb ac amseroedd aros diangen yr Adran Achosion Brys, yn ogystal â lleihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi.

## YMATEB I COVID-19

Fel rhan o'r ymateb ehangach i COVID-19 mae weithwyr proffesiynol gofal iechyd o bob rhan o Hywel Dda wedi gweithio gyda'r timau Gwella Ansawdd a Thrawsnewid Gwasanaeth a'r timau Cyfathrebu i ddatblygu adnoddau ar-lein newydd ar gyfer cleifion y mae COVID-19 yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol arnynt.

Mae'r rhain yn cynnwys cyngor adfer ar-lein COVID-19 ar gyfer cleifion a gafodd ddiagnosis o COVID-19, Adfer o, **COVID-19 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (nhs.wales)** a gwybodaeth i gleifion ar sut i baratoi ar gyfer triniaeth tra bod eu gofal wedi'i gynllunio wedi'i ohirio oherwydd y pandemig, **Paratoi ar gyfer triniaeth- Cyngor ffordd o fyw- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (nhs.wales)**, gan gynnwys cyngor ar gyfer cleifion canser, **Paratoi ar gyfer Triniaeth - Cyngor ffordd o fyw i gleifion canser - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (gig.cymru) cancer-patients/**.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â: **Marilize.preez@wales.nhs.uk**

## YMATEB YMCHWIL I COVID 19

Mae'r RIIC hefyd yn gweithio gydag adran Ymchwil a Datblygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phrifysgol Abertawe i gefnogi cais prosiect ymchwil i ddeall effeithiau gwybyddol COVID hir. Yn ogystal â chefnogi ymchwil mae'n bwysig i brosiectau ymateb COVID werthuso effaith unrhyw ymyrraeth. Mae'r RIIC hefyd yn cefnogi cais celfyddydau ar gyfer iechyd i ymateb i sefyllfa COVID 19 sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ledled Sir Benfro.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â: **susan.chichlowska@wales.nhs.uk**